# Gwyliau

O rwy'n hoffi mynd ar wyliau
Pacio cês a mynd ar wyliau braf
Mynd i le mae'r haul yn gwenu
Mae pob diwrnod yn un hir o haf

Pan mae'n heulog
Neu yn glawio
Bwrw eira, rhew neu'n gymylau
Rwy'n hoffi mynd i rywle
Gyda theulu a fy ffrindiau

O rwy'n dwlu mynd ar wyliau
Tocyn hedfan yn fy nwylo i
Mynd i lethrau gydag eira
Sgio'n gyflym dyna beth yw sbri

Pan mae'n heulog
Neu yn glawio
Bwrw eira, rhew neu'n gymylau
Rwy'n dwlu mynd i rywle
Gyda theulu a fy ffrindiau

O rwy'n caru mynd ar wyliau
Darllen map a mynd ar antur fawr
Codi pabell a gwersylla
Cysgu'r nos a chodi gyda'r wawr

Pan mae'n heulog
Neu' yn glawio
Bwrw eira, rhew neu'n gymylau
Rwy'n CARU mynd i rywle
Gyda theulu a fy ffrindiau

**Gwyliau a'r tywydd / holidays and the weather**

| | |
|---|---|
| Wyliau (gwyliau) | (holiday) |
| haul | (sun) |
| pacio | (to pack) |
| heulog | (sunny) |
| cês | (suitcase) |
| glawio | (raining) |
| tocyn | (ticket) |
| bwrw eira | (snowing) |
| hedfan | (fly) |
| rhew | (ice) |
| sgîo | (ski) |
| gymylau (cymylau) | (clouds) |
| llethrau | (slopes) |
| map | (map) |
| antur | (adventure) |
| pabell | (tent) |
| gwersylla | (to camp) |

**Geirfa gyffredinol / General vocabulary:**

| | |
|---|---|
| haf | (summer) |
| darllen | (read) |
| cysgu | (sleep) |
| nos | (night) |
| sbri | (fun) |
| teulu | (family) |
| ffrindau | (friends) |
| rywle (rhywle) | (somewhere) |

**Patrymau Iaith / Language Patterns:**

| | |
|---|---|
| Mynd ar wyliau | (Go on holiday) |
| Haul yn gwenu | (Sun shining) |
| Codi pabell | (Put up a tent) |
| Codi gyda'r wawr | (Wake up at dawn) |
| Rwy'n … hoffi / dwlu caru | (I … like (love) |

© 2025 S4C